**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/1498/23

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Mehefin 2023

Annwyl Llyr,

Rwy'n ysgrifennu er mwyn eich hysbysu bod Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2023 a fydd yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru yn fuan yn dod o dan gwmpas y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Adnoddau a Gwastraff.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, Atodlen 9, Rhan 2, sy'n gosod amodau trwydded penodol ar gyfer samplu ac adrodd y mae'n rhaid i gwmnïau Cyfleusterau Deunyddiau (MFs) sy'n derbyn 1,000 tunnell neu fwy o wastraff cymysg gydymffurfio â hwy. Bydd rheoliadau 2023 yn cynyddu cwmpas yr MFs y mae'n ofynnol iddynt samplu ac adrodd am eu gwastraff, yn ehangu y mathau o ddeunyddiau i'w nodi a'u mesur a'i gwneud yn ofynnol i MFs adrodd mwy o wybodaeth am gyflenwyr a chyrchfannau gwastraff. Bydd yr wybodaeth hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig ar gyfer Pecynnu (pEPR).

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.